# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 1

FFRAMWAITH STRATEGOL AR GYFER ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL

*Cydnawsedd â chyfraith elusennau*

VALID FROM 04/09/2023

### 19 Cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu darparwyr addysg drydyddol

(1) Nid oes dim byd yn y Ddeddf hon sy'n rhoi pŵer i'r Comisiwn neu i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu darparwr addysg drydyddol wneud unrhyw beth sy'n anghydnaws—

(a) ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngiad cyfreithiol sy'n gymwys i'r corff llywodraethu yn rhinwedd bod y darparwr yn elusen, neu

(b) â dogfennau llywodraethu'r darparwr.

(2) At ddibenion is-adran (1), dogfennau llywodraethu darparwr addysg drydyddol yw—

(a) yn achos darparwr a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol—

(i) Siarter y darparwr, a

(ii) unrhyw offeryn sy'n ymwneud â rhedeg y darparwr, y mae'n ofynnol i'r Cyfrin Gyngor gymeradwyo ei wneud neu ei ddiwygio;

(b) yn achos darparwr sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch (o fewn yr ystyr a roddir i "higher education corporation" gan adran 90(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13)), offeryn llywodraethu ac erthyglau llywodraethu'r gorfforaeth;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/12/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 19. (See end of Document for details)*

(c) yn achos darparwr sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg bellach (o fewn yr ystyr a roddir i "further education corporation" gan adran 17(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992), offeryn llywodraethu ac erthyglau llywodraethu'r gorfforaeth;

(d) yn achos darparwr sy'n sefydliad a ddynodir o dan adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40) neu adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, offeryn llywodraethu ac erthyglau llywodraethu'r darparwr;

(e) yn achos darparwr sy'n ysgol, offeryn llywodraethu'r ysgol (os oes un);

(f) yn achos darparwr sy'n cael ei redeg gan gwmni, memorandwm ac erthyglau cymdeithasu'r cwmni.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/12/2022. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 19.